

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Gwenfyl Williams (Llansannan) a gweddi y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn y teulu i gyd i ofal yr Arglwydd.
- Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith a dymunwn Dduw yn rhwydd i bob un ohonynt. Da deall bod Hafwen Roberts (Henllan) wedi cael dod adre o'r ysbyty ddechrau'r wythnos, a diolchwn am y gofal da y mae Bessie Owens (Cefn Berain) a Kitty Parry (Llanefydd) yn parhau i'w gael yn yr Inffirmari. Gwerthfawrogwn hefyd y gofal a roddir gan gymaint o bobl eraill, boed hynny yn aelodau o'r teulu, yn ofalwyr penodedig, yn feddygon teulu, gan y cartrefi gofal, a gan staff yr holl ysbytai sy'n gwasanaethu'r ardal hon. Diolchwn i Dduw amdanynt oll.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanellwy). Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Apêl Ethiopia

Mae *Tearfund* yn ceisio ymateb i'r angen dirfawr sydd yn Ethiopia o ganlyniad i'r sychder mawr sydd yno. Mae cynydau wedi eu difetha, a da byw wedi marw, a hynny mewn niferoedd enfawr oherwydd glaw afreolaidd ac effaith y newid hinsawdd yno. Ni chafwyd glaw ers dwy flynedd mewn rhai llefydd yno.

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled, rydym fel Bro am wneud casgliad gyda'r gobaith y medrwn wneud ychydig o wahaniaeth ym mywydau y rhai sydd mewn angen yno, ac apeliwn yn garedig arnoch i gyfrannu tuag at yr Apêl arbennig yma. **Erbyn hyn, mae amlenni ar gael ymhob un o eglwysi'r Ofalaeth ac fe fyddem yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniadau ERBYN DIWEDD CHWFROR, os gwelwch yn dda.**

Cofiwch y bydd y Parch. Hywel Meredydd yn sôn yn yr oedfa heno am y gwaith y mae *Tearfund* yn ei wneud yn y wlad mewn partneriaeth â'r eglwysi lleol.

I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-10)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 24ain–26ain. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn o'r Fro, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 10fed**. Mwy o fanylion a ffurflenni ar gael gan Gwion.
- **CYMDEITHAS LLANEFYDD** – Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant yng Nghapel Llanefydd nos lau, Mawrth 2il. Mwy o fanylion i ddod.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Chwefror 2017

Darlleniad y Dydd

Galarnad 3:22-26

(BCND tud.749 / BCN tud.682)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Ar gychwyn y mis bach, ac yn wir ar gychwyn bob diwrnod yn ôl ein darlleniad ar y cyd, mae gennym reswm i ddiolch i'r Arglwydd oherwydd bod ei gariad a'i garedigrwydd yn ddiwedd ac yn newydd bob bore (Galarnad 3:22-23). Ystyriwch hyn am funud: diddiwedd ac eto'n newydd bob bore! Am faint o bethau yn ein bywydau y gallwn ddweud yr un peth? Dangosa hyn fod tosturi Duw atom yn bersonol – yn gwneud gwahaniaeth yn y sefyllfaoedd go iawn y byddwn ni yn ei wynebu. Hefyd mae ei gariad yn golygu y gallwn ddibynnu'n llwyr arno gan nad oes diwedd iddo. Ac wrth gwrs er bod cariad yn aml yn cael ei ddisgrifio mewn llawer o ffyrdd gwahanol, i'r Cristion mae cariad Duw wedi cael ei amlygu yn Iesu Grist ei hun – ein Gwardwr ac Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd. (Ioan 1:29) Gan fod Iesu Grist wedi rhoi addewid na fyddai'n gadael ei ddisgyblion yn amddifad, a'i fod wedi rhoi'r Ysbryd Glân yn rhodd iddynt, gallwn wynebu bob diwrnod yn hyderus bod cariad, caredigrwydd a chryfder at bob gofyn trwy'r hwn sydd yn fy nerthu i. (Philipiad 4:13)

Yn ychwanegol at dderbyn aelodau newydd nos Sul diwethaf cawsom gyfle ganol yr wythnos flaenorol i ystyried dysgeidiaeth y Beibl ar waith a gorffwys. Dwi'n siŵr fod llawer ohonom wedi cael y profiad o deimlo baich prysurdeb ac amrywiol gyfrifoldebau yn pwysu arnom o bryd i'w gilydd, ac yn y cyfarfod cafwyd trafodaeth ar y ffordd y mae'r Beibl yn ein dysgu fod bywyd y Cristion i gael ei nodweddu gan waith a gorffwys, ac na ddylai'r naill na'r llall llwyr reoli. Er mwyn byw fel hyn rhaid i ni dderbyn doethineb gan yr Arglwydd i osod blaenoriaethau a gwneud dewisiadau anodd. Wrth gwrs, pen draw'r cyfan yw'r gorffwys tragwyddol a gawn yn yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Oherwydd i Iesu gyflawni ewyllys ei Dad yn llwyr trwy ei fywyd a'i farw aberthol ar y groes, nid oes angen i ni weithio i ennill unrhyw ffafr oddi wrth Dduw. Rhodd yw'r bywyd llawn sydd ar gael, ac wrth roi'n ffydd yng Nghrist y derbyniwn ef. Ac wrth i ni deimlo gofidiau a beichiau bywyd yn drech na ni, cofiwn fod Iesu wedi galw ar y blinedig a'r llwythog i ddod ato Ef i gael gorffwys – gorffwys tragwyddol i'n heneidiau. (Mathew 11:28-29) Y cwestiwn i ni felly yw, ydym ni'n profi gorffwysfa yn Iesu Grist, neu ydym ni'n teimlo'n hunain yn cael ein llethu yn ceisio plesio pobl eraill, llwyddo yn ein byd gwaith, neu'n ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn cadw rheolaeth ar bopeth?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Thesalonaiad 2:13-17 (BCND tud.228 / BCN tud.209)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu ac yn rhannu hefo ni am waith partneriaid *Tearfund* yn ymateb i'r angen dirfawr yn Ethiopia.
- Mawrth – 7^{fed} ➤ **Torri Syched y Merched** – seiat yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 7.30.
- Mercher – 8^{fed}
lau – 9^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **CIC + (Bl. 10+)** yn Llansannan am 7.30.
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00, a bydd Ysgol Sul yno am 11.00. Bydd Cyfarfod Gweddi hefyd yng Nghefn Meiriadog am 10.30, ac Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 8^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Chwefror 5ed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Henllan a Groes

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir gwasanaeth yng Nghefn Berain am 10.00 i ddathlu bod Elin, Elan a Gwern wedi eu derbyn yn aelodau yn yr eglwys. Bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa.

'Blwyddyn Gap' - Coleg y Bala

Mae'r FLWYDDYN GAP yn gwrs ymarferol mewn meithrin disgyblion, yn para blwyddyn ac wedi ei leoli yng Ngholeg y Bala. Amcanion y FLWYDDYN GAP yw i:

- annog datblygiad personol ac ysbrydol
- ymdrechu tuag at fod â chymeriad cynyddol Grist-debyg
- cynorthwyo pob myfyriwr i adnabod ei ddoniau a'i botensial
- datblygu sgiliau arwain, cyfathrebu ac adeiladu tîm effeithiol
- cynorthwyo a galluogi pob myfyriwr i ddirnad sut gyfraniad y gall ei wneud i'r Eglwys.

Dyddiad cau Blwyddyn Gap Medi 2017 – Awst 2018 yw'r **14eg o Chwefror 2017**. Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / colegybala@ebcpw.org.uk neu trwy ymweld â'r wefan colegybala.org/Cymraeg/blwyddyn-gap.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.